


# Rhaglen Natura 2000 LIFE

Cylchlythyr 1
Mai 2013

Cyfoeth Naturiol Cymru

## *Cyflwyno Rhaglen Natura 2000 LIFE*

Nod Rhaglen Natura 2000 LIFE yw llunio cynllun strategol ar gyfer rheoli ac adfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yng Nghymru, ar y tir ac yn y môr, ar gyfer y cyfnod 2014 - 2000 a thu hwnt. Caiff y prosiect ei roi ar waith gan Gyfoeth Naturiol Cymru, a chaiff gymorth ariannol gan gronfa LIFE yr UE.





***Sesiwn Holi ac Ateb ym Maes y Ffynnon***

## Cyfarfod â Thîm y Prosiect

Erbyn hyn, mae holl aelodau Tîm Natura 2000 LIFE wedi'u penodi, sef:
*Rheolwr y Rhaglen: Kathryn Hewitt*
*Gweinyddwr y Rhaglen: Hayley MacDonald-Jones*
*Cydlynydd y Tir: Ian Hughes*
*Cydlynydd Dŵr Croyw a Gwlyptiroedd: Theresa Kudelska*
*Cydlynydd y Môr: Jennifer Kelly*
*Cydlynydd Rhywogaethau: Patrick Lindley*
*Rheolwr Data: Scott Griffiths*



**Rhai aelodau o'r tîm (o'r chwith i'r dde, Theresa Kudelska, Jennfer Kelly, Patrick Lindley, Hayley Macdonald-Jones, Kathryn Hewitt)**

## Y Lansiad a'r Digwyddiadau Sefydlu

Ddechrau mis Chwefror cynhaliwyd dau o ddigwyddiadau sefydlu, a mynychwyd y rhain gan 87 o gynrychiolwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau a grwpiau rhanddeiliaid sydd â buddiant mewn Natura 2000. Rhoddodd y diwrnodau rhagarweiniol ym Mangor ac yng nghyffiniau Merthyr Tudful olwg gyffredinol i'r cyfranogwyr o beth yn union yw amcanion y prosiect. Ymhellach, cyfrannodd y mynychwyr at weithdai'n ymwneud â'r canlynol:

- Blaenoriaethau ar gyfer Natura 2000 yng Nghymru
- Cyllid ar gyfer Natura 2000 yng Nghymru

I gael copi o adroddiad yn sôn am y digwyddiad, anfonwch e-bost at *hayley.macdonald-jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk*

## Yr hyn rydym wedi bod yn gweithio arno…

Y dasg gyntaf oedd casglu tystiolaeth yn ymwneud â'r prif broblemau a'r prif risgiau (pwysau a bygythiadau) sy'n effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd ar safleoedd Natura 2000. Cawsom yr wybodaeth o Gronfa Ddata Gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru, a hefyd o ffynonellau pwysig eraill, ac rydym wedi nodi'r pum prif broblem ar gyfer pob nodwedd.

## Beth nesaf?...

Mae gwaith ar y gweill bellach i ystyried y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i ymdrin â'r pwysau a'r bygythiadau sy'n wynebu safleoedd Natura 2000 (er enghraifft cynllunio amaeth-amgylcheddol, gweithredu uniongyrchol, cymhellion a rheoleiddio), a pha mor effeithiol ydynt. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan asesiad o fecanweithiau a dulliau newydd posibl – gan dynnu ar brofiad o bob rhan o Gymru, y DU a thu hwnt.
Mae contractau i fod cael eu gosod, i astudio cyfleoedd ariannu cyfredol a phosibl ac i lenwi bylchau yn y dystiolaeth.

## Digwyddiadau sydd i ddod: Seminarau Technegol

Rydym ar hyn o bryd wrthi'n trefnu gweithdai technegol a fydd yn cael eu cynnal yn ystod mis Mehefin mewn amryw leoliadau trwy Gymru. Ym mhob digwyddiad bydd cyfle i fwrw golwg dros y gwaith a wnaed hyd yn hyn ar broblemau a risgiau, ynghyd â chyfrannu gwybodaeth, barn ac arbenigedd. Bydd gweithdai gwahanol yn cael eu cynnal ar gyfer pob thema: y tir, dŵr croyw a gwlyptiroedd, y môr, a Adar a Yslumod.

Bydd y gwahoddiadau'n cael eu hanfon yn y dyfodol agos. Os byddwch angen gwybodaeth bellach, anfonwch e-bost at Hayley MacDonald-Jones (hayley.macdonald-jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk).



*Gweithdy Garwnant*

## Cronfa Ddata

Ar ôl pwyso a mesur gofynion busnes a gofynion technegol gyda defnyddwyr yng Nghyfoeth Naturiol Cymru, rydym yn cynnig y bydd y Rhaglen LIFE Natura 2000 yn defnyddio ac yn gwella Cronfa Ddata Camau Gweithredu CNC (yn hytrach na sefydlu system ar wahân). Byddwn yn gweithio gyda phartïon â diddordeb i ddatblygu gallu'r gronfa ddata i gadw data newydd (er enghraifft ar gostau), llunio Cynlluniau Gweithredu ac ateb cwestiynau strategol. Ochr yn ochr â hyn , byddwn yn diweddaru ac ehangu'r data yn y gronfa data.

Rydym yn awyddus i glywed eich barn am hyn. Os hoffech gael mwy o wybodaeth, ynghyd â rhestr ddiweddar o'r gofynion datblygu, anfonwch e-bost at hayley.macdonald-jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## IPENS

Yn Llundain ar 24 Ebrill, cynhaliodd ein chwaer-brosiect yn Lloegr eu digwyddiad cyntaf ar gyfer eu rhanddeiliaid. Caiff y prosiect hwn, sef 'Improvement Programme for England's Natura 2000 Sites' (IPENS) ei redeg gan Natural England a'i ariannu gan LIFE+. Mae eu nod i lunio rhaglen strategol a chynlluniau gweithredu ar gyfer pob safle Natura yr un fath â'n nod ni yng Nghymru, ond efallai fod eu prosesau a'u dulliau rywfaint yn wahanol. Bydd y ddau brosiect yn cydweithio'n agos er mwyn rhannu arferion gorau a rhoi dulliau cydnaws ar waith ar gyfer safleoedd trawsffiniol, megis Aber Afon Hafren.

**www.naturalengland.org.uk/ipens2000**

## Sut i gysylltu â ni:

Rheolwr y Rhaglen: Kathryn Hewitt; *kathryn.hewitt@naturalresourceswales.gov.uk*
Gweinyddwr y Rhaglen: Hayley MacDonald-Jones; *hayley.macdonald-jones@naturalresourceswales.gov.uk*
Cydlynydd y Tir: Ian Hughes; *ian.hughes@naturalresourceswales.gov.uk*
Cydlynydd Dŵr Croyw a Gwlyptiroedd: Theresa Kudelska; *Theresa.kudelska@naturalresourceswales.gov.uk*
Cydlynydd y Môr: Jennifer Kelly; *jennifer.kelly@naturalresourceswales.gov.uk*
Cydlynydd Rhywogaethau: Patrick Lindley; *patrick.lindley@naturalresourceswales.gov.uk*
Rheolwr Data: Scott Griffiths; *scott.griffiths@naturalresourceswales.gov.uk*

***Neu ffoniwch (01248) 385797***

***Ar y we: www.ccw.gov.uk/LIFE***

## Newidiadau i Gyfoeth Naturiol Cymru

Ar 1 Ebrill 2013, unodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asianaeth yr Amgylvhedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru gan greu un corff, sef Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni fydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar y modd y caiff Rhaglen Natura 2000 LIFE ei rhoi ar waith, ond efallai y bydd yna fân newidiadau gweinyddol, er enghraifft cyfeiriad e-bost newydd ar gyfer y tîm.

***Cefnogir gan LIFE, offeryn ariannol y Gymuned Ewropeaidd: LIFE 11 NAT/UK/385***